



Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Headteacher
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 ☎ 01443 219596
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk

Gorffennaf, 2013

Annwyl Riant / Warcheidwad,

1. RHAI DYDDIADAU A THREFNIADAU PWYSIG DIWEDD A DECHRAU TYMOR

Dydd Gwener 19 Gorffennaf Ysgol yn gorffen i ddisgyblion a'r bysiau'n gadael safle'r ysgol am **1.30 y.p.**

2. TREFNIADAU DECHRAU TYMOR YR HYDREF 2012:

Dydd Llun 2 Medi Diwrnod Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)
Ysgol ar gau i ddisgyblion.

Dydd Mawrth 3 Medi **Blwyddyn 7 a 12** yn dychwelyd i'r ysgol.
Bysiau'n gadael y safle am 12.30 y.p.

Dydd Mercher 4 Medi **POB** blwyddyn yn dychwelyd i'r ysgol.
Diwrnod ysgol fel arfer.

3. Dechrau tymor

Ar ddechrau'r tymor ym mis Medi bydd Blwyddyn 7 yn mynd i Langrannog ar eu cwrs iaith a bydd gweddill yr ysgol yn cael cyflwyniad i waith y flwyddyn mewn sesiynau estynedig. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion flasgu sgiliau bydd eu hangen arnynt ar gyfer y cam nesaf o'u rhaglen ddysgu. Bydd y rhaglen lawn ar wefan yr ysgol ar ddechrau'r tymor newydd.

4. 'PASS' BWS

Mae'r adran Trafnidiaeth Gartref Ysgol wedi ein hysbysu y bydd angen i ddisgyblion ddefnyddio eu 'pass' bws presennol ym mis Medi hefyd. Felly, mae angen ei gadw'n ddiogel ar gyfer dechrau'r tymor!

5. Arweinwyr Cynnydd

Arweinwyr Cynnydd 2013-2014

Blwyddyn 7
Blwyddyn 9
Blwyddyn 11

Mr Dylan Hughes
Ms Eleri Richards
Mrs Mairwen Price

Blwyddyn 8
Blwyddyn 10
Blwyddyn 12/13

Mr Aled Rogers
Ms Menna Lewis
Ms Menna Thomas

6. Arolwg

Fel y gwyddoch, arolygwyd yr ysgol gan Estyn ym mis Mai a chafwyd adborth cadarnhaol a chefnogol iawn. Bydd yr adroddiad ar gael ar wefan Estyn yn fuan ar ôl Gorffennaf 24^{ain} a bydd copïau ar gael o'r ysgol ym mis Medi.

7. Ac yn gyffredinol . . .

A hithau'n tynnu tuag at ddiwedd y tymor, ga i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barod ar hyd fy mlwyddyn gyntaf fel Pennaeth. Bu'n flwyddyn brysur, lwyddiannus a llawn ac ymfalchiwn yn llwyddiannau di-ri ein disgyblion a'n hathrawon brwd ac ymroddgar.

Ar ddiwedd y tymor hwn, byddwn yn ffarfelio gyda rhai aelodau o staff. Bydd Mr. Gwydion Lewis, Arweinydd yr Adran Addysg Gorfforol yn dechrau gyrfa newydd fel cyfarwyddwr Canolfan Mudiad Efengylaidd Cymru yn y Bala. Diolchwn iddo am ei arweiniad ymroddgar a blaengar o'r Adran. Yn ymddeol mae Mrs. Gwawr Davies (Saesneg). Roedd Mrs. Davies yn un o ddisgyblion cyntaf Ysgol Gyfun Rhydfelen a bu'n athrawes yn yr ysgol am dros 15 mlynedd. Byddwn hefyd yn ffarfelio gyda Mrs. Carys Watts sydd wedi bod yn athrawes yn yr ysgol am bron deg mlynedd. Diolchwn i'r ddwy am eu gwaith gwych o fewn yr ysgol a dymunwn ymddeoliad hir a hapus i Mrs. Gwawr Davies.

Byddwn hefyd yn ffarfelio a thair o'n staff cynorthwyol sef Ms Ashtonn Jenkins, Ms Laura Sharpe a Ms Georgia Bush. Diolchwn iddynt am eu gwaith arbennig yn yr ysgol yn y cyfnod byr y buont gyda ni a dymunwn yn dda iddynt wrth ddechrau ar gam nesaf eu hastudiaethau a'u hyfforddiant.

Ga i fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno gwyliau hapus a diogel i chi a'ch teulu. Ymlaciwch a mwynhewch gyda'ch gilydd.

Cofiwch hefyd . . . Canlyniadau Arholiadau!

SU ac UG:

Dydd Iau, 15 Awst

**TGAU a chymwysterau
cyfatebol**

Dydd Iau, 22 Awst

Yn gywir,

Mrs. Angela Williams
Pennaeth